Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:

## Ebrill - Mehefin 2024

| Cyfanswm nifer y carcharorion sy'n oedolion yn y ddalfa | Cyfanswm nifer y carcharorion ifainc yn y ddalfa | Cyfanswm nifer y carcharorion yn y ddalfa | Nifer yr ymweliadau gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | Cyfanswm nifer y carcharorion yn y ddalfa adeg ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | Cyfanswm nifer y carcharorion ddim ar gael | Nifer y carcharorion a arsylwyd | Cyfanswm nifer y carcharorion yr ymwelwyd â nhw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1723 | 114 | 1837 | 25 | 101 | 24 | 26 | 36 |

*Oherwydd bod system cronfa ddata gyfrifiadurol newydd o'r enw Niche wedi dechrau o fis Mai 2023, ni all y data ar gyfer cyfanswm nifer y carcharorion fod yn fanwl gywir gan fod hyn ar hyn o bryd yn cynnwys arestiadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r system cofnodion cadw. Mae'r mater hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y tîm technegol.*

### Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Gweithredol: 14


- Sir Benfro: 3
- Powys: 3
- Ceredigion: 3
- Sir Gaerfyrddin: 5


*Ar hyn o bryd, mae pedwar ymgeisydd newydd wrthi'n cael eu fetio. Yn ogystal, mae tri gwirfoddolwr yn cymryd seibiant dros dro o'r cynllun.*

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner


Ebrill – Mehefin 2024


## Amseroedd Ymweliadau:




## Diweddariad Cynllun:



**Gofal Iechyd**

- Mae cyflenwad meddygol yn parhau i fod yn broblematig ar draws yr Heddlu. Er bod tendr yn mynd rhagddo i drafod darpariaeth gofal iechyd newydd, mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd dal yn canfod problemau mewn perthynas â chyflenwad meddygol, yn arbennig mewn dalfeydd mwy gwledig.

**Eitemau Crefyddol**

- Fel y crybwyllwyd yn yr adroddiad chwarterol diwethaf, nodwyd y modd yr oedd eitemau crefyddol yn cael eu storio fel pryder. Mae hyn yn ymwneud â'r ffordd y dylai'r holl destunau crefyddol a matiau gweddïo gael eu lapio a'u storio'n gywir, nid ochr yn ochr ag eitemau storio eraill fel esgidiau, papur tŷ bach neu unrhyw eiddo personol arall yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Er bod y mater hwn wedi'i ddatrys yn ystod y chwarter diwethaf; yn anffodus, mae'r eitemau nôl yn y cwpwrdd storio erbyn hyn. Wrth ymgynghori â'r Arolygydd ar Ddyletswydd, canfu bod yr eitemau crefyddol wedi'u symud nôl dros dro er mwyn darparu ar gyfer argymhelliad ar wahân a wnaed gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd mewn perthynas â lle coffor ar gyfer staff allanol megis ymarferwyr gofal iechyd, cyfreithwyr ac oedolion priodol. Bellach, mae'r eitemau crefyddol yn cael eu cadw yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

**Materion Staffio**

- Mae materion staffio yn parhau i fod yn bryder. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd dal yn profi oedi o ran cael mynediad i'r ddalfa yn ogystal ag effeithiau sy'n gysylltiedig â'r gofyniad i gael aelod o staff y ddalfa'n eu tywys er mwyn iddynt gynnal eu hymweliadau â'r carcharorion. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd hefyd wedi nodi goblygiadau o ran y canlynol:
  - Swyddogion o'r un rhyw ar gyfer gofynion cyfreithiol o ran chwilio unigolion a glendid.
  - Pwysau ar staff presennol i gyflenwi amgylchedd llawn pwysau.

**Oedi Wrth Dderbyn Ymwelwyr i'r Ddalfa**

- Bu nifer o broblemau o ran derbyn ymwelwyr i'r ddalfa, sydd wedi arwain at ymwelwyr yn rhoi'r gorau i ddau ymweliad. Roedd yr oedi'n ymwneud â materion staffio yn ogystal â gât a oedd wedi torri a rwystrodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd rhag cael mynediad i adeilad y ddalfa ddwywaith.

**Adborth Cadarnhaol**

- Er gwaethaf rhai o'r problemau a brofwyd, fel y dangosir yn y *Crynodeb o Faterion Eraill a Nodwyd,* mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi darparu'r arsylwadau cadarnhaol a ganlyn y mae staff y ddalfa yn eu gwneud yn rheolaidd:
  - Roedd rhingyll dalfa newydd o gymorth mawr yn ystod un ymweliad, gan roi atebion ystyriol iawn a diduedd i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Roedd yr un rhingyll hefyd o gymorth mawr wrth ganiatáu i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd siarad â charcharor bregus a oedd o dan arsylwadau Lefel 4 (mae hyn yn golygu ei bod hi'n ofynnol i staff y ddalfa gadw llygad barcud ar y carcharor a'i oruchwylio'n gyson).
  - Yn ystod sawl ymweliad, tybiwyd bod staff y ddalfa'n dangos agweddau cadarnhaol tuag at anghenion carcharorion ac ystyriwyd bod y gwiriadau amgylchedd yn lân a thaclus fwy nag unwaith.
  - Roedd bocs llawn teganau a gemau ar gyfer plant wedi'u rhoi i un o'r dalfeydd, sy'n darparu eitemau defnyddiol iawn ar gyfer tynnu sylw ac yn ychwanegiad a groesawir i'r dewis presennol o bêl sbwng.
  - Ar sawl achlysur, adroddwyd pa mor "groesawgar" a "chynorthwyol" oedd rhingylliaid dalfeydd ledled Dyfed-Powys o ran cynorthwyo ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

**Cyfarfod Chwarterol y Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd**

- Cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ar 19 Mehefin 2024. Roedd y Prif Arolygydd Jenna Jones ar gael i ymateb i ymholiadau a phynciau a drafodwyd dros y chwarter diwethaf, a oedd yn cynnwys diwygio llawlyfr newydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, edrych i mewn i Ffurflenni Adrodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Niche, ac Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn gofyn am gael gweld cofnodion dalfa a hyfforddiant mewn perthynas â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cewch wylio fideo sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant drwy ddilyn y ddolen ganlynol: Hyfforddiant Byr ar y Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr – Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Yn ogystal, cynigiwyd hyfforddiant Oedolion Priodol i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gyda'r darparwr gan Adferiad ar 13 Mai 2024, a fydd yn helpu i roi dealltwriaeth i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd pe bai angen iddynt holi am y pwnc mewn perthynas â charcharorion agored i niwed.

**Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd**

- Cychwynnodd y Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd ym mis Mawrth eleni, a chynhelir cyfarfodydd ym Mhencadlys yr Heddlu bob yn ail fis. Diben y Panel Craffu'n Annibynnol ar Ddalfeydd yw sicrhau bod gweithredu gweithdrefnau dalfa a chadw'r heddlu yn Nyfed-Powys yn gymesur, cyfreithlon a gofynnol. Ers sefydlu'r Panel, yr ydym wedi edrych ar ieuenctid yn y ddalfa, carcharorion agored i niwed, a'r defnydd o rym. Mae nifer o'n Hymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ynghlwm â'r Panel hwn, sy'n gwneud awgrym cadarnhaol o welliant i'r heddlu.

**Wythnos y Gwirfoddolwyr**

- Aeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gydag Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd i ddalfa Dafen ar gyfer wythnos y gwirfoddolwyr ar 4 Mehefin. Tynnwyd casgliad o ffotograffau a ffilmiwyd darnau fideo er mwyn tynnu sylw at y gwaith da y mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn ei wneud yn rheolaidd, a hefyd er mwyn hysbysebu ar gyfer ein hymgyrch recriwtio. Tynnwyd sylw at yr ymweliad ar ein tudalen cyfryngau cymdeithasol. Gallwch weld y neges fan hyn: Com|Dyfed-Powys on X: "Heddiw, ymwelodd CHTh @DafyddLlywelyn â'r Ddalfa yn Nafen. Cyfarfu ag Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a staff i drafod gwelliannau parhaus a sicrhau safonau uchel o ofal a diogelwch.

| |
|---|
| *perthynas â hyn, gyda hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gyflwyno. Mae materion staffio wedi'u trin, ac maen nhw dal yn cael eu trin, ac rydyn ni'n gweld y gwelliannau o ran cyflenwad.*<br><br>*Mae'r gwasanaethau dalfa wrthi'n ymweld â dalfeydd ac yn eu harchwilio, ac mae meysydd megis deunyddiau crefyddol, deunyddiau tynnu sylw, a nifer o feysydd eraill yn cael ei gwirio a'u profi. Unwaith yn rhagor, diolchaf i'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd am eu cefnogaeth a'u hymdrechion parhaus o ran sicrhau bod ein Dalfeydd yn rhedeg fel y dylent fod a bod gofal a thriniaeth carcharorion o safon uchel. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi dros y chwarter nesaf."* |